

P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng.

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-05-1078

Teitl y ddeiseb: Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!

Testun y ddeiseb: Ers i COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ddod i'r amlwg, mae pobl wedi bod yn gaeth i'w haelwydydd fis ar ôl mis ac roedd llawer o'r bobl hynny'n dioddef cyn y cyfyngiadau symud, a thra'r oeddent ar waith. Roeddwn i'n rhywun a ddioddefodd yn sgil y cyfyngiadau symud ac rwy'n pryderu am nifer yr achosion o hunanladdiad yn fy ardal cyn y cyfyngiadau symud, a thra'r oeddent ar waith. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gwaethygu iechyd meddwl pobl ac wedi gosod gwasanaethau iechyd meddwl o dan gryn straen - mae plant ifanc yn dioddef, ac mae oedolion a'r henoed yn dioddef hefyd o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.



Dylai Senedd Cymru fod yn cymryd camau ynghylch iechyd meddwl ac yn ariannu mwy o wasanaethau, mae pobl yn disgwyl am amser hir cyn gweld rhywun, neu cyn iddyn nhw gael help. Nid yw llawer o feddygon a nyrsys lleol wedi'u hyfforddi ym maes iechyd meddwl.

Cynyddodd canran y bobl wnaeth roi gwybod eu bod yn dioddef problemau iechyd meddwl o 23.3% yn 2017-2019 i 36.8% ym mis Ebrill 2020 (astudiaeth hydredol o aelwydydd y DU). Os nad yw hynny'n ei gwneud yn gwbl glir sut mae'r cyfyngiadau symud yn newid i'r eithaf y modd rydym yn byw ein bywydau ac yn ymladd y brwydrau sy'n ein wynebu'n ddyddiol, wn i ddim beth fydd yn gwneud.

Cefndir

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 8 Hydref 2020 ar ôl iddi gael ei phenodi, eglurodd Eluned Morgan AS fod **gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u dynodi'n 'wasanaeth hanfodol'** yn ystod cyfnod cynnar pandemig y coronafeirws, gan nodi bod pobl wedi gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl pan oedd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae elusennau ym maes iechyd meddwl, fel Mind Cymru, yn dweud bod cael mynediad at gymorth o ran iechyd meddwl wedi bod yn anodd yn ystod y pandemig, gyda bron i un o bob pedwar yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gymorth sydd ei angen arnynt.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd ar 4 Tachwedd 2020, nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg nifer o flaenoriaethau ynghylch iechyd meddwl yn ystod y tair blynedd nesaf, gan gynnwys "**Gwelliannau pellach i ddarpariaeth argyfwng a thu allan i oriau** ar gyfer plant, oedolion oedran gweithio ac oedolion hŷn - gan symud i ddarpariaeth amlasiantaeth gyffredin ledled Cymru gan gynnwys sicrhau cymorth a threfniadau trawsgludo priodol ar gyfer gofal mewn argyfwng".

Ar 9 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'i chynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl 2019 i 2022 mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae cynllun diogelu'r gaeaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2020 i 2021 gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, yn nodi'r blaenoriaethau ar

gyfer iechyd a gofal cymdeithasol hyd at fis Mawrth 2021, gan gynnwys yr amgen i barhau i ddynodi iechyd meddwl yn 'wasanaeth hanfodol'.

Mae **datganiad ysgrifenedig** y Gweinidog yn amlinellu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan nodi fel a ganlyn: "Rydym yn buddsoddi tua £700m bob blwyddyn yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG ac yn diogelu'r buddsoddiad hwnnw drwy neilltuo arian ar gyfer iechyd meddwl".

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22** ar 21 Rhagfyr 2020. Mae dogfen y gyllideb ddrafft yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi mewn iechyd meddwl a llesiant (gweler tudalen 28). Mae'r ddogfen yn nodi bod "**diogelu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn 2021-22 yn parhau i fod yn flaenoriaeth**". Yn ei chyllideb ddrafft, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi fel a ganlyn:

Gan gydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar iechyd meddwl a lles llawer o bobl, rydym yn dyrannu £20m yn ychwanegol o fewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu'r cymorth ar draws ystod o feysydd. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad o dan Cymru Iachach ar gyfer Cronfa Gwella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl drwy ddyblu ein cyllid o £7m i £14m. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gymorth i wasanaethau anghlinigol ar y rheng flaen, cymorth argyfwng pob oed, a gwasanaethau asesu cof.

Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i nodi:

Ynghyd â'r cynnydd yng nghyllid Iechyd Meddwl y GIG sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cyflogau a chwyddiant, mae hyn yn cyfateb i fwy na £42m o fuddsoddiad ychwanegol a fydd yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn 2021-22. Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn iechyd meddwl ar draws y Llywodraeth, yn unol â'n dull atal a diogelu iechyd meddwl a lles, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad at fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Ym mis Ionawr 2021, bydd dau o bwyllgorau'r Senedd – y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – yn craffu ar waith y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 o safbwynt iechyd meddwl a llesiant.

Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 17 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd adroddiad ar ei Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys 15 o argymhellion i wella cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant i bobl yng Nghymru.

Ar 9 Hydref 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad, 'Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach'. Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol o ran iechyd meddwl. Ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd erthygl, 'Iechyd meddwl, pobl ifanc a'r pandemig', cyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 11 Rhagfyr 2020.

Hefyd, cyhoeddodd Senedd Ieuenctid Cymru ei hadroddiad, 'Gadewch i ni siarad am iechyd meddwl', ar 9 Hydref 2020.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon adroddiad ar ofal mewn argyfwng iechyd meddwl, sef 'Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu'. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn ar 10 Rhagfyr 2019.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r ddeiseb hon eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.